

# Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr

## Hysbysu. Ymgysylltu. Ysbrydoli.

Cafodd ein strategaeth ei
**chymeradwyo gan breswylwyr**

NORTH WALES HOUSING
TAI GOGLEDD CYMRU

# Beth sydd tu mewn


Rhagair 3

Cyfarfod â'ch Is-gadeirydd Panel Newydd 4

Beth yw Cyfranogiad Preswylwyr 5

Rhagymadrodd 6

Ein Cenhadaeth, Ein Gweledigaeth, Ein Gwerthoedd 7

Datblygu'r Strategaeth 8

Yr Hyn a Ddywedasoch Wrthym 9

Ymgynghori â Phreswylwyr 10-11

Yr Hyn Rydym yn Bwriadu ei Wneud 12

Cymryd Rhan 13

Ydych Chi'n Barod i Gymryd Rhan? 14

Sut i Gymryd Rhan 15

Cyllid/Ariannu 15

Sut Byddwn ni'n Eich Cefnogi Chi i Gymryd Rhan? 16-17

Sut Byddwn ni'n Gwybod a yw'n Gweithio? 18

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 18

Beth i'w Wneud os Aiff Rhywbeth o'i le/os Nad Ydych yn Hapus? 19




# Rhagair

**Am y 50 mlynedd diwethaf, mae Cymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi bod yn darparu cartrefi ac yn darparu gwasanaethau rhagorol i bron i 3000 o deuluoedd ac unigolion ar draws gogledd Cymru.**

Rydym yn deall gwerth a phwysigrwydd cartref da a gwyddom fod a wnelo tai â mwy na brics a morter. Dyna pam rydyn ni'n rhoi ein preswylwyr wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud. Mae ymgysylltu â'n preswylwyr a gwrando arnynt yn bwysig i ni ac mae gweithio gyda phreswylwyr, a'ch grwpiau cynrychioliadol, yn ein helpu i ddeall eich anghenion heddiw ac yfory.

Mae ein pobl hefyd yn ganolog i'n gweledigaeth a dyna pam rydym yn denu ac yn cadw'r bobl orau, sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i'ch rhoi chi, y preswylydd, wrth galon popeth a wnawn.

Ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl ac rydym yn cydnabod bod eich llais a'ch cyfraniad yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw. Mae eich adborth a'ch cyfranogiad yn hanfodol. Rydym am i chi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lunio gwasanaethau a'n helpu ni i wneud y penderfyniadau cywir sy'n effeithio arnoch chi a'ch bywydau bob dydd.

Rydym yn ymfalchïo mewn adeiladu perthnasau a phartneriaethau gyda'n preswylwyr presennol yn ogystal â'r cymunedau yr ydych yn byw ynddynt. Ac mae gennym breswylwyr sydd eisoes yn cymryd rhan, boed hynny trwy banel preswylwyr, fforwm, llenwi arolygon a rhoi adborth i ni. Ac rydym am sicrhau bod pawb yn cael cyfle i leisio eu barn a dweud eu dweud ar ddatblygu a darparu ein gwasanaethau mewn ffordd a chydag ymrwymiad amser sy'n gweithio i chi. Felly beth am gymryd rhan!

**Helena Kirk**
**Prif Weithredwr**



# Cyfarfod â'ch Is-gadeirydd panel newydd

**Mae gan Banel Preswylwyr Tai Gogledd Cymru Is-Gadeirydd newydd. Etholwyd Juliet Jones i rôl yr Is-gadeirydd yng nghyfarfod diweddaraf y Panel ym mis Mehefin 2024. Mae hi wedi bod yn byw gyda Tai Gogledd Cymru am y 23 mlynedd diwethaf ac ymunodd â'n Panel Preswylwyr dair blynedd yn ôl.**

Dywedodd Juliet:

**"Rwy'n falch iawn ac yn ddiolchgar am y cyfle i wasanaethu fel eich Is-gadeirydd. Dechreuais ymwneud â'r Panel Preswylwyr am fy mod eisiau gweld sut mae gwasanaethau i breswylwyr yn cael eu cymeradwyo a'u penderfynu gan Tai Gogledd Cymru.**

**"Mae'n bwysig bod preswylwyr yn cymryd rhan i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, bod gwelliant parhaus mewn safonau gwasanaeth, er mwyn i ni allu sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu."**

Ychwanegodd Juliet:

**"Rwy'n falch iawn o weld y Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr newydd yn cael ei lansio ar gyfer 2024-2025. Mae rôl i bawb sydd eisiau cymryd rhan a helpu i lunio penderfyniadau yn Tai Gogledd Cymru.**

**"Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn Tai Gogledd Cymru, mae llawer o opsiynau ar gael i chi."**

Mae'r rhain yn cynnwys y sesiynau newydd Llais y Preswylwyr, sydd wedi'u lansio i roi cyfle i breswylwyr ddod at ei gilydd i drafod sut rydym yn adeiladu'r dyfodol gwell hwnnw i bawb a sicrhau ein bod ni i gyd wrth ein bodd efo lle rydyn ni'n byw.

Mae yna hefyd y Panel Preswylwyr, grwpiau ffocws, cymryd rhan mewn arolygon blynyddol ac ymgynghoriadau, gan ddod yn ddarllenydd ein taflenni a'n llythyrau neu roi adborth i ni ar ein gwasanaethau.

Gallwch ddarganfod mwy yma: Cymryd Rhan - Tai Gogledd Cymru, neu cysylltwch ag Iwan Evans, ein Cydlynydd Cyfranogiad Preswylwyr yn Iwan.Evans@nwha.org.uk neu ei ffonio ar 01492 563232.



# Beth yw cyfranogiad preswylwyr?

**Mae Cyfranogiad Preswylwyr yn gweithio i bawb. Mae'n ffordd i chi, fel preswylwyr, rannu syniadau a chydweithio â ni fel landlord cymdeithasol i rannu syniadau.**



Mae'n ffordd i breswylwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn ystod trafodaethau am wella cyflwr eich cartref yn ogystal â'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i chi. Mae'n ffordd wych i ni ddysgu mwy am ein gilydd ac i breswylwyr ddarganfod sut a pham y gwneir penderfyniadau.

Mae eich cyfranogiad yn fuddiol, a'r syniad yw rhoi cyfle i chi rannu a rhoi barn, mewnbwn, adborth a chyfrannu syniadau cadarnhaol am eich cartref, eich cymuned, a'r gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn. Mae'n helpu'r tîm yma yng Nghymdeithas Tai Gogledd Cymru i ddysgu mwy amdanoch chi, eich anghenion a'ch blaenoriaethau. Mae hefyd yn gyfle i ni wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwella boddhad. Mae hon yn broses ddwy ffordd, ac rydym yn ei gweld fel rhan hanfodol o'n gwaith.





# Rhagymadrodd

**Wrth adnabod sut y byddwn yn darparu cyfleoedd i breswylwyr gael dweud eu dweud a dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer, rydym yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i chi a'ch cyfranogiad.**




Rydym am gynyddu eich cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r strategaeth hon yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i roi ein gwerthoedd ar waith ac i gyflawni nodau ac amcanion ein Cynllun Corfforaethol. Gallwch ddarllen ein Cynllun Corfforaethol yma:

https://www.nwha.org.uk/cy/amdanom-ni/cynllun-busnes/.

Mae hefyd yn ofyniad cyfreithiol i bob landlord cymdeithasol ddatblygu a chefnogi Cyfranogiad Preswylwyr, a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i ni ddarparu tystiolaeth ein bod yn bodloni'r gofyniad rheoliadol:

**'Mae preswylwyr yn cael eu grymuso a'u cefnogi i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau'.**

## Ein cenhadaeth

**Trawsnewid bywydau gyda chartrefi gwych, gwasanaethau o safon a chefnogaeth.**

## Ein gweledigaeth

**Gwneud gwahaniaeth a darparu cartrefi mewn cymunedau y mae pobl wrth eu bodd yn byw ynddynt.**

## Ein gwerthoedd

**Mae Cymdeithas Tai Gogledd Cymru yn ymdrechu i fyw ei gwerthoedd. Mae ein Cynllun Corfforaethol yn seiliedig ar ein gwerthoedd, ac maent yn allweddol i'n Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr a sut rydym yn bwriadu hyrwyddo a threfnu cyfleoedd i chi gymryd rhan.**



# Datblygu'r strategaeth

**Wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, rydym wedi ymgynghori â phreswylwyr a staff. Rydym hefyd wedi ystyried archwiliad diweddar a wnaethom ar gyfranogiad preswylwyr, ein Cynllun Corfforaethol, a chanlyniadau'r Arolwg STAR.**

## Arfer Da Ond Lle i Wella

Ym mis Hydref 2023, fe wnaethon ni gomisiynu archwiliad o'n cyfleoedd cyfranogiad preswylwyr ffurfiol. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, dywedodd yr archwilydd annibynnol wrthym:

"Mae gan Tai Gogledd Cymru system gadarn o reolaeth fewnol ar waith o ran ymgysylltu â phreswylwyr. Nodwyd nifer o feysydd arfer da, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cryf, strategaethau, a chamau gweithredu i wella cyfranogiad tenantiaid a thystiolaeth o adborth preswylwyr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol a monitro perfformiad gweithredol.

"Fe wnaethom nodi y gellid gwneud gwelliannau i ffurfioli trefniadau ar gyfer sefydlu a hyfforddi aelodau tenant. Nodir bod y rheolwyr yn ymwybodol o'r maes hwn i'w wella ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu hyfforddiant perthnasol i aelodau'r preswylwyr.

## Yr hyn ddywedoch chi wrthym yn yr Arolwg STAR

Mae arolwg STAR yn cael ei gynnal bob blwyddyn ac mae'n seiliedig ar arolwg gan Lywodraeth Cymru. Fe'i defnyddir gan landlordiaid ledled Cymru i fesur boddhad preswylwyr ac i weld sut y maen nhw'n gwneud o gymharu â'i gilydd.

**Roedd 76% yn fodlon ar y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.**

**Roedd 84% o breswylwyr yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol.**

**Roedd 76% yn fodlon ar sut y oedd TGC yn gwrando ar eu barn ac yn gweithredu ar hynny.**

# Yr hyn a ddywedasoch wrthym



# Ymgynghori â phreswylwyr

Gofynnwyd i breswylwyr am y strategaeth. Dechreuodd hyn gyda thrafodaeth gyda'n Fforwm Preswylwyr ar yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd a sut y gallem wella. Rhannwyd arolwg hefyd ar gyfryngau cymdeithasol, ein gwefan a thrwy neges destun. Defnyddiwyd ein digwyddiadau hefyd fel cyfle i wrando ar farn preswylwyr.

Dywedodd y preswylwyr y siaradwyd â nhw eu bod yn fodlon ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt gymryd rhan; mi wnaethon nhw ddweud wrthym hefyd mai eu blaenoriaethau yw:

01 Dylai Tai Gogledd Cymru (TGC) fod yn fwy gweladwy

02 Mae preswylwyr eisiau cael gwybod am y newyddion diweddaraf

03 Mae preswylwyr eisiau cael eu diweddaru.

## Yr hyn ddywedoch chi wrthym...

"Angen i TGC fod yn fwy gweladwy."

"Defnyddio pob platfform i gyrraedd pobl – cyfryngau cymdeithasol, baneri, taflenni trwy flychau llythyrau ."

"Bodlon gyda beth sy'n cael ei gynnig."

"Boreau coffi."

"Mae Diwrnodau Cymunedol yn boblogaidd. Llawer o sylwadau ar weld mwy ohonyn nhw."

"Mae yna opsiynau gwahanol i gymryd rhan."

"Gwella ymddiriedaeth a chael y pethau sylfaenol yn iawn."

Galw heibio.

Bod yn fwy gweladwy.

Angen gwneud gwahaniaeth nid dim ond ticio bocsys.

Mwy o gyfleoedd wyneb-yn-wyneb ar stadau.

Prosiectau Cymunedol – prosiectau celf neu wella'r amgylchedd lleol.

Dim amser am gyfarfodydd rheolaidd.

Curo drysau neu ffonio.

Angen rhoi gwybod i ni be sy'n digwydd gyda'r adborth, fel gyda'r taliadau gwasanaeth.



## Dywedodd ein Cydweithwyr wrthym:

**Gofynnwyd i'n staff hefyd am eu barn mewn ymgynghoriad. Dyma beth ddywedon nhw wrthym:**

01 Mae angen i Tai Gogledd Cymru fod yn weladwy

02 Mae rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr yn flaenoriaeth

03 Mae'n bwysig bod preswylwyr a staff yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau

04 Rhowch gyfle i breswylwyr ddewis beth sy'n digwydd yn yr ardal lle maen nhw'n byw

05 Darparu cyfleoedd hyfforddi a chefnogaeth

# Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud


**Mae gennym bedwar nod y byddwn yn ymrwymo i weithio tuag atynt, sy'n adlewyrchu canlyniadau'r ymgynghoriad wrth ddweud wrthym fod angen mwy o gyfleoedd ar breswylwyr i gymryd rhan, eich bod eisiau mwy o hyfforddiant, mwy o wybodaeth ac eisiau cael y wybodaeth ddiweddaraf, yn ogystal â gweld llawer mwy ohonom.**

Dylai hyn oll sicrhau bod preswylwyr yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a dylanwadu ar wneud penderfyniadau. Mae hyn nid yn unig yn hanfodol i wella ein busnes a'n gwasanaethau, mae'n ein helpu i gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol, ond mae'n sicrhau bod preswylwyr yn teimlo'n wybodus, yn cael eu cynnwys a'u hysbrydoli i gymryd rhan.

| | Nodau | Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud |
|---|---|---|
| 1 | **Cynyddu Lefelau Cyfranogiad**<br>Rydym am annog cymaint o breswylwyr ag y gallwn i gymryd rhan. | • Gwella gwasanaeth<br>• Gwella boddhad<br>• Preswylwyr yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir<br>• Gwell perthynas<br>• Rhoi cyfle i graffu<br>• Galluogi ystod amrywiol o safbwyntiau |
| 2 | **Gwella sgiliau a gwybodaeth**<br>Mae'n bwysig bod preswylwyr yn cael cyfleoedd i gael mynediad at wybodaeth fel bod gennych y wybodaeth a'r sgiliau i gymryd rhan, a bod gan ein cydweithwyr y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gefnogi cyfranogiad. | • Preswylwyr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso.<br>• Lefelau cyfranogiad uwch<br>• Mwy o breswylwyr yn cael eu galluogi i weld manteision cymryd rhan.<br>• Datblygu sgiliau newydd<br>• Creu cymunedau gwell a mwy cydlynol<br>• Gall cydweithwyr hyrwyddo cyfranogiad a chwilio am gyfleoedd ar gyfer mwy o gyfranogiad |
| 3 | **Gwella gwelededd TGC**<br>Mae'n bwysig bod TGC yn weladwy er mwyn parhau i feithrin ymddiriedaeth gyda'n preswylwyr. | • Gwella boddhad<br>• Gwella cyfathrebu<br>• Adeiladu ymddiriedaeth.<br>• Mwy o bobl eisiau cymryd rhan. |
| 4 | **Darparu amrywiaeth o opsiynau cynnwys ystyrlon fel y gall preswylwyr ddylanwadu ar benderfyniadau**<br>Mae'n bwysig cael amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan i weddu i wahanol anghenion ac amgylchiadau. | • Gwella gwasanaeth<br>• Gwella boddhad<br>• Mae cyfranogiad yn hygyrch.<br>• Preswylwyr yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir. |



# Cymryd rhan



# Ydych chi'n barod i gymryd rhan?

**Mae cymaint o ffyrdd o gymryd rhan a helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau Tai Gogledd Cymru. Rydym yn ymrwymo i barhau i ddarparu adnoddau i gefnogi a gwella'r cyfleoedd hyn i chi.**

Mae yna lawer o ffyrdd o gymryd rhan a gallwch ddewis faint o ymrwymiad amser rydych chi am ei roi, faint o gyfrifoldeb yr hoffech chi ei gael ac maen nhw'n cynnig gwahanol lefelau o ddylanwad. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr, ac os oes gennych unrhyw syniadau eraill y credwch y gallem eu datblygu i helpu i gynyddu a gwella eich cyfranogiad, byddwn yn edrych i weld sut y gellir cefnogi'r rheini.

| Sut i gymryd rhan | Sut mae'n edrych |
|---|---|
| Panel Preswylwyr | Mae ein Panel Preswylwyr yn cyfarfod bob dau fis ac mae ganddo'r cyfrifoldeb am graffu a'n gwasanaethau a'n perfformiad i sicrhau bod yr holl breswylwyr yn derbyn y safonau uchaf o wasanaeth. |
| Fforwm Preswylwyr | Mae ein Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd gan roi cyfle i breswylwyr gael gwybodaeth, dylanwadu ar ein penderfyniadau, a chryfhau ein gwasanaethau.<br>Ein nod yw neilltuo pob cyfarfod i bwnc penodol, gan alluogi aelodau i ddysgu mwy am Tai Gogledd Cymru, a darparu mewnbwn ac adborth i wella'r gwasanaethau a ddarparwn.<br>Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein gyda'r nos ar hyn o bryd. |
| Grŵp Ymateb Cyntaf | Mae hwn yn grŵp o breswylwyr sydd â diddordeb mewn gweithredu fel 'darllenwyr' taflenni, ffurflenni, polisïau ac ati. Gallwch roi adborth i ni trwy e-bost.<br>Byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn arolygon achlysurol, grwpiau ffocws a chlywed am ffyrdd newydd o gymryd rhan wrth iddynt ddatblygu.<br>Mae'r Grŵp Ymateb Cyntaf yn addas ar gyfer y rheini sydd am gael dweud eu dweud a dylanwadu ar wasanaethau ond y byddai'n well ganddynt beidio â mynychu cyfarfodydd. |
| Ymgynghori ac arolygon | Rydym yn ymgynghori â phreswylwyr yn aml ar bynciau amrywiol i wella gwasanaethau. Gall hyn fod ar ffurf grwpiau ffocws, arolygon ar-lein neu bapur, cnocio drysau/digwyddiadau ar gynlluniau. |
| Arolygon Boddhad | Cymryd rhan mewn arolwg boddhad. Gofynnir i chi am adborth ee arolygon boddhad gwaith trwsio. Gallwch hefyd gymryd rhan mewn arolwg boddhad blynyddol (Arolwg STAR). |
| Digwyddiadau | Rydyn ni'n cynnal digwyddiadau misol felly rydyn ni'n dod atoch chi. Dewch i gael sgwrs gyda ni. Mae hyn yn cynnwys diwrnodau cymunedol, sesiynau galw heibio, cymorthfeydd cynllun, sesiynau codi sbwriel cymunedol. Mae'n gyfle gwych i gwrdd â staff. Mewn rhai digwyddiadau, rydym hefyd yn ymgynghori ac yn casglu adborth ar bynciau a gwasanaethau amrywiol. |



# Sut i gymryd rhan

**Mae 3 lefel o gymryd rhan ar gael i'n holl breswylwyr:**

## 1

Byddwch yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf, yn cymryd rhan wrth gwblhau arolygon, yn rhoi adborth i ni ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y ffordd orau y gallwn gyfathrebu â chi.

Gall hyn gynnwys cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar wahanol welliannau i'r gwasanaeth, cwblhau arolygon bodlonrwydd, a mynychu digwyddiadau sydd o ddiddordeb i chi.

Mae gennym hefyd arolwg boddhad blynyddol. Neu gallwch ymuno â'n Grwp Ymateb Cyntaf, sef cronfa o breswylwyr sydd â diddordeb mewn gweithredu fel darllenwyr taflenni, ffurflenni, polisïau ac ati a rhoi adborth. Gallwch hefyd gymryd rhan mewn arolygon achlysurol, grwpiau ffocws, a chlywed am ffyrdd newydd o gymryd rhan.

## 2

Gallwch ymuno â'n Fforwm Preswylwyr presennol sy'n cael ei gynnal bob dau fis ar-lein gyda'r nos. Bydd yn rhoi cyfle i chi gael gwybodaeth, dylanwadu ar ein penderfyniadau, a chryfhau ein gwasanaethau.

Neu gallwch ddod i'n sesiynau Llais y Preswylwyr, sy'n cael eu cynnal bob dau fis. Mae'n sesiwn 1 awr, anffurfiol ac rydyn ni'n edrych ar faterion penodol sy'n bwysig i breswylwyr. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i chi gyfarfod â staff.

## 3

Gallwch ymuno â'n Panel Preswylwyr, sy'n cynnwys aelodau'r bwrdd, preswylwyr a staff, ac sy'n cyfarfod bob dau fis (gallwch ddewis mynychu'n bersonol neu gyfarfod ar-lein). Mae'r panel yn craffu ar ein gwasanaethau a'n perfformiad i sicrhau bod pob preswylydd yn derbyn y safonau gwasanaeth uchaf posibl.

Rhoddir cefnogaeth a hyfforddiant llawn i aelodau newydd.

Efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn ymarferion Siopa Dirgel. Bydd Siopa Dirgel yn ddull o wirio ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan Tai Gogledd Cymru. Mae'n ffordd o ddarganfod profiad y preswylwyr go iawn.

# Cyllid/ariannu

**Rydym wedi neilltuo adnoddau ariannol i wneud yn siŵr y gallwch gymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys:**

01 Digwyddiadau hyfforddi rheolaidd

02 Costau Teithio a Gofal Plant

03 Lleoliadau addas, cymysgedd o gyfarfod wyneb yn wyneb ac ar-lein

04 Amser a chefnogaeth staff i'ch annog i gymryd rhan

05 Cefnogaeth Weinyddol



# Sut byddwn ni'n eich cefnogi chi i gymryd rhan?

**Yn Tai Gogledd Cymru rydym yn gwbl ymroddedig i gefnogi a gwella ein cyfranogiad preswylwyr. Rydym y gwybod pa mor bwysig ydyw a'r budd a ddaw yn ei sgil nid yn unig i ni ond hefyd i'n preswylwyr.**

**Oeddech chi'n gwybod bod gennym Gydlynydd Cyfranogiad Preswylwyr a bod cyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad preswylwyr?**



## Cyfarfod Iwan

Iwan yw ein Cydlynydd Cyfranogiad Preswylwyr.

Mae wedi bod yn gweithio yn TGC ers tua 10 mlynedd. Ei rôl yw sicrhau ein bod yn cynnig amrywiaeth o opsiynau i'n preswylwyr gymryd rhan a lleisio barn ar wasanaethau. Mae Iwan yn datblygu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Preswylwyr. Mae hefyd yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer preswylwyr.

Iwan yw'r pwynt cyswllt i breswylwyr sydd am wneud cwyn ffurfiol, sicrhau bod cwynion yn cael eu cofnodi a bod TGC yn dilyn ei gweithdrefn gwyno.



## Beth sy'n newydd?

**Beth am ddod i'n sesiynau newydd Llais y Preswylwyr? Ym mis Mehefin 2024, lansiwyd ein Llais y Preswylwyr cyntaf. Mae'n gyfres o sesiynau i breswylwyr ddod draw i gael sgwrs anffurfiol gyda ni a rhannu syniadau ac adborth. Fe'i cynhelir bob dau fis, a gallwch ddod o hyd i'r holl fanylion ar ein gwefan lle mae gan Llais y Preswylwyr ei dudalen ei hun:**

**https://www.nwha.org.uk/cy/llais-preswylydd-2/**





“Mae cyfranogiad ac adborth preswylwyr yn hanfodol er mwyn helpu i lunio ein gwasanaethau a’n penderfyniadau. Mae’n bleser gweithio gydag aelodau o’r Panel a’r Fforwm sy’n rhoi o’u hamser eu hunain i ddysgu mwy am ein gwaith a’n helpu i wella.

“Mae wedi bod yn brofiad dysgu cadarnhaol ac rydym wedi gwella’n sylweddol ar gyfranogiad preswylwyr. Rydym wedi ymrwymo i wella’n barhaus trwy weithio mewn partneriaeth â phreswylwyr.

“Hoffwn ddiolch i breswylwyr a helpodd i ddatblygu’r strategaeth hon. Nid darn o bapur yn unig ydyw, rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu ochr yn ochr â’n helpu i gyflawni’r hyn wnaethoch chi ddweud wrthym sy’n bwysig,” meddai Iwan.

**Iwan Evans**

Os hoffech wybod mwy neu os hoffech gymryd rhan, cysylltwch ag Iwan yn iwan.evans@nwha.org.uk neu ffoniwch ef ar 01492 563232

Yn ogystal ag Iwan, mae ein holl staff wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu cyfleoedd cyfranogiad preswylwyr. Mae hynny’n cynnwys ein harweinwyr. Mae gennym gefnogaeth ac ymrwymiad gan yr uwch dîm arwain, sy’n ymdrechu’n barhaus i ystyried sut rydym yn cynyddu cyfranogiad preswylwyr i’r eithaf, ei fanteision a sut y gall wella ein gwasanaethau.

Wrth gynllunio unrhyw brosiect neu unrhyw newidiadau yn ein ffyrdd o weithio byddwn bob amser yn ystyried sut y gall cyfranogiad preswylwyr chwarae rhan. Mae’r Tîm Rhaglen a Pherfformiad a’r Cydlynydd Cyfranogiad Preswylwyr wedi creu ffurflen i annog cydweithwyr i ystyried a oes angen cyfranogiad preswylwyr yn y darn o waith y maent yn ei wneud .

Bydd Tai Gogledd Cymru yn parhau i gefnogi’r cyfleoedd ffurfiol i gymryd rhan (ee Panel Preswylwyr), darparu cefnogaeth staff, hyfforddiant i gyfranogwyr, costau mynychu cyfarfodydd ac ati. Mae ein cyfleoedd ffurfiol i gymryd rhan yn bwysig i ni. Fodd bynnag, rydym am estyn allan at fwy o drigolion a chlywed beth sydd ganddynt i’w ddweud ac rydym yn edrych ar sut y gallwn ddarparu cyfleoedd anffurfiol pellach i chi ddysgu mwy amdanom ac i gael dweud eich dweud am y gwasanaethau a ddarparwn.


Rydych chi wedi dweud wrthym yn yr ymgynghoriad preswylwyr fod cael ein gweld yn bwysig i chi; felly, bydd hyn yn flaenoriaeth allweddol dros gyfnod y Strategaeth hon. Mae derbyn gwybodaeth hefyd wedi’i gadarnhau fel blaenoriaeth; felly, byddwn yn rhoi adborth i gyfranogwyr ac yn darparu diweddariadau ar sut y defnyddiwyd eu mewnbwn/adborth.

# Sut byddwn ni'n gwybod a yw'n gweithio?

**Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Strategaeth hon. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro a'i adolygu gan breswylwyr yn ein cyfarfodydd Fforwm Preswylwyr. A phob blwyddyn am y pedair blynedd nesaf, byddwn yn creu Cynllun Gweithredu diweddar.**

Nid yw'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys popeth gan ein bod yn gwybod y bydd syniadau a mentrau cyfranogiad preswylwyr yn datblygu drwy'r adeg dros amser. Wrth i hynny ddigwydd, byddwn yn sicrhau y gallwn gynnwys y syniadau a'r mentrau hyn yn y strategaeth a'r cynllun gweithredu.

Bydd adroddiad cyfranogiad preswylwyr blynyddol hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Panel Preswylwyr. Bydd hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn a'r effeithiau mae wedi ei gael.




# Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i'n gwaith. Mae gan bob preswylydd hawl i gyfranogiad ac am y rheswm hwnnw ein nod yw sicrhau bod cyfleoedd cyfranogiad preswylwyr yn agored ac ar gael i bawb. Rydym am annog cymaint o'n preswylwyr â phosibl i gymryd rhan.**

Mae gennym hefyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a fydd yn cael ei hystyried wrth hyrwyddo a threfnu cyfleoedd cyfranogiad preswylwyr. Mae Tai Gogledd Cymru wedi ennill y marc ansawdd QED gan Tai Pawb. Mae'r dyfarniad QED yn fframwaith penodol i Gymru ar gyfer adolygu, gwella a thrawsnewid effaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sefydliad.



# Beth i'w wneud os aiff rhywbeth o'i le/os nad ydych chi'n hapus?

**Rydyn ni eisiau clywed gennych os ydych chi'n teimlo nad ydyn ni'n gwneud yr hyn y dywedon ni ein bod ni'n mynd i'w wneud yn y Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr.**

Gallwch wneud hynny trwy'r ffyrdd isod:

01 Gofyn i'ch pryder gael ei gynnwys ar agenda unrhyw Fforwm Preswylwyr

02 Mynegi eich pryder wrth ymateb i arolygon boddhad neu geisiadau am ymateb ar-lein, dros y ffôn neu drwy ysgrifennu atom.

03 Mynegi eich pryder gyda'r Cydlynydd Cyfranogiad Preswylwyr

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddatrys eich problem ond os teimlwch nad yw wedi'i ddatrys i'ch boddhad mae gennym Drefn Gwyno. Ceir manylion yma:

https://www.nwha.org.uk/cy/eich-cartref/cwyn/





NORTH WALES HOUSING
TAI GOGLEDD CYMRU


01492 572727

customerservices@nwha.org.uk

North-Wales-Housing

@northwalesha



disability confident EMPLOYER

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

QED QUALITY, EQUALITY, DIVERSITY

VERY GOOD TO WORK FOR 2024